



## **CYNLLUN TROSGLWYDDO YSGOL DAVID HUGHES A'R DALGYLCH**

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn rhestru'r ysgolion sydd wedi cytuno iddo ac sydd â rhan yn ei weithredu. Mae'n rhoi crynodeb o'r nodau a'r amcanion y mae ysgolion y bartneriaeth wedi cytuno arnynt ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2020 i fis Gorffennaf 2023 ac mae'n rhoi manylion y gwaith sydd i'w wneud yn 2020-21. Bydd ysgolion y bartneriaeth yn adolygu ac yn cytuno ar y cynnydd a wnaed a'r camau nesaf sydd i'w cymryd bob blwyddyn gan gwblhau'r adolygiad cyntaf erbyn 30 Medi 2021.

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gyfundeb ar y cyd rhwng yr ysgolion canlynol –

Ysgol David Hughes  
Ysgol Gynradd Llanfairpwll  
Ysgol Gynradd y Borth  
Ysgol Gynradd Llangoed  
Ysgol Gynradd Biwmares  
Ysgol Parc y Bont  
Ysgol Gynradd Llandegfan  
Ysgol Gynradd Brynsiencyn  
Ysgol Gynradd Pentraeth

### **PWRPAS**

Pwrpas y ddogfen hon yw hyrwyddo cydweithio effeithiol, cyd-gynllunio, a meithrin cydberthynas broffesiynol rhwng Ysgolion Cynradd a'r Ysgolion Uwchradd y maent yn eu bwydo, er budd disgyblion drwy osod sail strwythuredig ar gyfer cyswllt a throsglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd.

### **Datblygiadau Pellach:**

Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau trefniadau ynglŷn â rhai camau mewn perthynas â throsglwyddiad disgybl o'r sector Cynradd i'r sector Uwchradd a'r cyswllt rhwng ysgolion. Adolygir cynnwys y ddogfen yng ngoleuni profiad a chan ystyried unrhyw faterion pellach y byddai'n fuddiol cyfeirio atynt yn ei chynnwys. Gwneir hynny ar gais grŵp y Prifathrawon Uwchradd, y Grŵp Strategol Cynradd neu'r Pennaeth Ysgolion / Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden yn ogystal â'r trefniadau adolygu blynyddol a ddisgrifir isod.

## **Ein nodau cytûn yw:**

- Hyrwyddo dilyniant addysg ar hyd y continwmm addysg o 3 oed i 16 oed a thuag at y Pedwar Diben.
- Hyrwyddo a hybu gwaith ar draws y camau cynnydd ac ar hyd y continwmm.
- Meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymysg staff o'r fethodoleg/addysgeg a geir â'r profiadau a gaiff y disgyblion, a darparu continwmm o addysgeg priodol.
- Datblygu a hwyluso cyfnewid athrawon rhwng sectorau ar gyfer cyd-weithio, cyd-gynllunio a chyd-asesu a manteisio ar arbenigeddau staff.
- Paratoi disgyblion ar gyfer y profiad o drosglwyddo rhwng ysgolion.
- Pennu cymorth penodol a thargedu y disgyblion hynny a ystyrir yn rhai sy'n agored i niwed neu'n fregus neu sydd âg ADY.
- Sicrhau bod data/gwybodaeth ar gyfer trosglwyddo disgyblion wedi'i ddarparu a'i ddefnyddio'n briodol.
- Sicrhau bod rhieni/gofalwyr/teuluoedd yn cael eu hysbysu'n llawn am y broses drosglwyddo.
- Creu modd i ddisgyblion drosglwyddo'n effeithiol.
- Hybu trafodaeth ac felly hyrwyddo'r broses penderfynu a datblygu polisi.
- Rhannu arbenigedd ac adnoddau.
- Sicrhau holl fanteision HMS ar y cyd.
- Datblygu strategaeth ar y cyd i gyfleu pwysigrwydd addysg yn ein cymuned.

## **ER BUDD DISGYBLION**

- Rheoli a chyd-gysylltu'r broses drosglwyddo.
- Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd.
- Sicrhau parhad mewn dulliau addysgu a dysgu effeithiol.
- Sicrhau cysondeb wrth asesu/monitro a dilyn cynnydd disgyblion drwy ei gymharu a'r cyrhaeddiad blaenorol.
- Gwerthuso effaith y polisi a'r cynlluniau gwella ar safonau.
- Cynlluniau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion.
- Rhannu gwybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad y disgyblion.
- Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol.

## **AMSERLEN**

Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i gyflawni'r nodau uchod a'r Cynllun Gweithredu a fabwysiedir yn flynyddol yn manylu ar y camau datblygu ar gyfer y flwyddyn honno. Yn yr un modd ag a wnaed wrth lunio'r cynllun hwn, byddwn yn ceisio barn llywodraethwyr, rhieni, gofalwyr a disgyblion am y dull gweithredu. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda swyddogion yr awdurdod addysg lleol.

## CYNNWYS

Mae'r cynllun yn nodi'r camau a gymerir yn unol â'r gofynion craidd sydd wedi'u nodi mewn canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru:

1. Rheoli a chydgyssylltu'r broses drosglwyddo
2. Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd
3. Sicrhau parhad mewn dulliau addysgu a dysgu
4. Sicrhau cysondeb wrth asesu a monitro a dilyn cynnydd disgyblion drwy ei gymharu â'r cyrhaeddiad blaenorol
5. Gwerthuso effaith y polisi a'r cynlluniau gwella ar safonau. Yn ogystal â hynny, mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo mewn meysydd penodol.
6. Cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion
7. Rhannu gwybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion
8. Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol.

Ym mhob achos, mae'r cynllun yn nodi gwaith cyfredol a pharhaus. Os nodir meysydd i'w gwella, byddwn yn cytuno ar flaenoriaethau ac yn gweithio arnynt gyda'n gilydd yn ystod cyfnod y cynllun.

### **1. Rheoli a chydgyssylltu'r broses drosglwyddo**

Mae pob ysgol yn y bartneriaeth wedi enwebu aelod o'i thîm rheoli i arwain ar ddatblygu, gweithredu a gwerthuso'r camau a gytunwyd yn y cynllun hwn.

### **Fforwm Penaethiaid - Grŵp Llywio Dalgylchol**

Bydd y rhai y mae ysgolion y bartneriaeth wedi'u henwebu'n cwrdd o leiaf tair gwaith y flwyddyn i adolygu cynnydd, nodi unrhyw faterion ychwanegol y mae angen rhoi sylw iddynt ac, os oes angen, cytuno ar y camau gweithredu priodol.

### **Adolygiad Blynyddol**

Bydd y rhai y mae ysgolion y bartneriaeth wedi'u henwebu hefyd yn gwneud adolygiad blynyddol o'r cynllun hwn tua diwedd y flwyddyn ysgol ac yn ystyried y cynnydd a wnaed ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ddilynol gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau. Bydd cyrff llywodraethu ysgolion y bartneriaeth yn ystyried ac yn cytuno ar argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad.

### **Cydgysylltydd Trosglwyddo**

Mae Mrs Mari Roberts wedi'i henwebu'n Gyd-gysylltydd Trosglwyddo'r Dalgylch. Bydd y cyd-gysylltydd yn hyrwyddo gwaith y grŵp llywio ac, yn benodol, yn cynghori ar:

- fonitro'r cynnydd ar y prif feysydd sydd wedi'u nodi yn y cynllun blwyddyn.
- y dull gorau o sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i gynnwys rhieni/ gofawyr a disgyblion wrth gael adborth a chynllunio.
- sut i sicrhau bod cysylltiadau effeithiol yn digwydd dan arweiniad yr awdurdod lleol.
- unrhyw gamau i fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad ag adolygu a chyhoeddi'r Cynllun Trosglwyddo.

## **2. Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd (Y cwricwlwm presennol a pharatoi at y Cwricwlwm Newydd erbyn 2022)**

### **Cyfarfod Dalgylchol:**

Rhoir pwysigrwydd yn y cyfarfodydd dalgylchol i drafodaethau cwricwlaidd sy'n arwain at barhad rhwng CA2 a CA3 ac ar hyd y continwwm dysgu. Yn benodol, yn ystod tymor yr haf, dylid cytuno ar y maes / meysydd cwricwlaidd sydd i gael sylw yn ystod y flwyddyn ysgol ddilynol a gosod drafft o raglen cyfarfod ar y cyd.

### **Hyfforddiant Mewn Swydd:**

Manteisir ar gyfleoedd hyfforddiant mewn swydd trosglwyddo i gyflwyno gweithgareddau datblygiad proffesiynol i'r staff perthnasol. Bydd y clwstwr yn darparu arweiniad ar arfer da mewn meysydd perthnasol i gynllunio'r cwricwlwm, dilyniant mewn addysgu a dysgu, asesu a monitro cynnydd. Trefnir bod arweiniad ar faterion rheolaethol ar gael yn ôl yr angen.

### **Cyswllt Cwricwlaidd Cynradd / Uwchradd:**

NOD:

Sicrhau bod disgyblion yn dilyn yr un profiadau cwricwlaidd wrth drosglwyddo er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.

Egwyddorion sylfaenol:

- Bydd y dalgylch yn cydweithio ar ddewis tasgau trosglwyddo cytunedig ar gyfer holl ysgolion y dalgylch.
- Bydd yr ysgolion yn y bartneriaeth yn cydweithio'n ffurfiol i sicrhau unoliaeth a pharhad cwricwlaidd ym mlynnyddoedd 5-8.
- Bydd athrawon yr ysgolion sy'n bwydo yn cydweithio ag athrawon yr ysgol uwchradd i sicrhau dealltwriaeth gwricwlaidd.
- Bydd llyfrau gwaith diweddar y disgyblion yn cael eu trosglwyddo i'r uwchradd *gan yr ysgolion cynradd ar ddiwedd wythnos gyntaf mis Gorffennaf cyn iddynt drosglwyddo / ar ddechrau y tymor cyntaf yn y sector uwchradd trwy law'r disgyblion.*
- Bydd y disgyblion yn parhau yn yr uwchradd gyda'r tasgau trosglwyddo /gwaith blwyddyn 6 yn ystod y tymor cyntaf.
- Bydd athrawon y cynradd yn gweithio gydag athrawon yr uwchradd yn y pynciau craidd er mwyn edrych ar waith y disgyblion gan safoni a chymedroli.

Sicrheir mai cydweithio sydd yn y bartneriaeth ac nid barnu. Nodir fod paroddrwydd i gael athrawon o'r naill sector a'r llall i ymweld â dosbarthiadau ei gilydd lle'n bosib.

## **Cymraeg i Ddysgwyr:**

Bydd Cyd-gysylltydd iaith y Cynradd yn ymweld â'r Ysgolion Cynradd (y dalgylch naturiol a'r estynedig) yn ystod y tymor cyntaf ar ôl trosglwyddo i wirio fod y ddarpariaeth ieithyddol yn parhau.

Bydd y Cyd-gysylltydd iaith yn ymweld ar gychwyn ail dymor Blwyddyn 6 i gychwyn y broses o adnabod lefelrwydd ieithyddol disgyblion cyn dechrau'r broses drosglwyddo ac, o dan arweiniad Ymgynghorydd y Gymraeg, yn cydgysylltu trefniadau ynglŷn â thrac iaith gyda Chydlynnydd iaith yr Ysgol Uwchradd. Er mwyn ystyried lefel cyrhaeddiad mewn iaith a'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, ystyrir yr wybodaeth sydd ar gael ym meysydd llafaredd, ysgrifennu a darllen. Gwneir hyn yng nghyd-destun polisi iaith yr Awdurdod Addysg a bydd disgwyl i ddisgyblion sy'n ennill lefel 3 cadarn ddilyn trac mamiaith.

Fe fydd yr ysgolion yn cytuno ar lefel y disgyblion yn y Gymraeg erbyn canol Mai bob blwyddyn. Fe fydd hyn yn caniatáu i'r ysgol uwchradd wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer gosod plant mewn dosbarthiadau a.y.b.

### **Cynlluniau eraill**

Bydd ysgolion y bartneriaeth yn ceisio cydweithio â'i gilydd ar gynlluniau megis Ysgolion Iach, Ysgolion Gwyrdd, PESS a.y.b. er hwyluso trosglwyddo effeithiol.

Yn ystod cyfnod y cynllun hwn cynllunnir a gweithredir gofynion diwygiedig y cwricwlwm newydd i Gymru.

- Bydd y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn ystyried gofynion y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol. Bydd yn hyrwyddo cynnydd tuag at y 4 Diben a'n ymarfer dulliau pedagogaeth y 12 egwyddor addysgegol. Dilyniir rhaglen dreigl dros nifer o flynyddoedd i sicrhau fod yr elfennau hyn yn yr holl bynciau yn cael sylw yn y cynllun trosglwyddo.

- Rhoddir pwyslais ar ddilyniant ieithyddol yn y Gymraeg fel bod pob plentyn yn ymgynraedd tuag at lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd ei gyfnod yn y sector uwchradd. Os yw cyrhaeddiad disgybl yn y Gymraeg yn isel, fe fydd yr ysgol uwchradd yn gwneud pob ymdrech i wella a chryfhau gafael y plentyn yn ei ail iaith.

- Gan y bydd canolbwyntio ar sgiliau trawsgwricwlaidd, cynhwysir y rhain yn yr holl feysydd dysgu a phrofiad.

## **3. Dulliau o Sicrhau Dilyniant wrth Ddysgu ac Addysgu**

### **Gweithgareddau Cwricwlaidd Pontio**

Bydd gwaith tymor olaf y disgyblion ym mlwyddyn 6 yn trosglwyddo gyda nhw i'r ysgol uwchradd. Gweithredir uned o waith pontio sy'n datblygu ac asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd gan sicrhau cyfleoedd i diwtoriaid blwyddyn 7 ymweld ag ysgolion cynradd dalgylchol.

## Rhaglen HMS

Sefydli'r rhaglen strwythuredig o hyfforddiant ar gyfer cyfnod tair blynedd y cynllun hwn, gan yr ysgolion yn y bartneriaeth (Fforwm HMS dalgylchol). Bydd y rhaglenni HMS a ddarperir yn defnyddio sail gyson i arweiniad ar arfer dda wrth ddysgu ac addysgu yn y ddau sector a dulliau cyffredin yn ogystal â datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd. Bydd cysondeb yn yr arweiniad ac unrhyw arweiniad a drefnir mewn hyfforddiant traws – sector.

- Ceisir datblygu dulliau dysgu ac addysgu cyffredin yn yr oll o'r ysgolion cysylltiedig.
- Ystyrir cynnig cyfleoedd i athrawon cynradd ac uwchradd gael rhannu profiadau ac arbenigedd drwy arsylwi ar ystafelloedd dosbarth a dulliau addysgu ei gilydd a pharatoi cynlluniau gwaith neu unedau pontio ar y cyd.
- Hyrwyddir dull cyson o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd yn yr ysgolion cysylltiedig.
- Bydd yr ysgolion cysylltiedig yn ymrwmo i rannu adnoddau presennol yn ôl yr angen i hyrwyddo'r broses o sicrhau llwyddiant y prosiect. Gall hyn olygu rhannu arbenigedd, adnoddau materol a dynol.

### **4. Cysondeb wrth asesu a monitro a dilyn cynnydd disgyblion drwy ei gymharu â'r cyrhaeddiad blaenorol**

#### **Asesiadau Athrawon:**

Mae cyfundrefn safoni a chymedroli CA2/3 yn y pynciau craidd wedi gwreiddio yn y dalgylch. Bydd athrawon cynradd ac uwchradd yn cyd-lefelu ar gyfer trosglwyddo. Fe fydd y bartneriaeth yn dilyn yr agenda genedlaethol ar gyfer gweithredu hyn ac fe ddilysir y broses gan GwE. Dros y blynyddoedd nesaf fe fydd gofynion y Cwricwlwm Newydd i Gymru'n disodli'r gwaith ar gyd-lefelu ond bydd y profiadau o gyd-graffu ar waith a sicrhau continwwm priodol ac uchelgeisiol o addysg ar gyfer ein dysgwyr yn parhau.

Yn ôl yr egwyddor hon, asesiadau athrawon ar y cyd fydd sail lleoli disgyblion i'w dosbarthiadau yn yr Ysgol Uwchradd.

Cadarnheir gwybodaeth am asesiadau athrawon ym mhynciau'r cwricwlwm cenedlaethol un wythnos glir cyn gwyliau'r Sulgwyn yn y flwyddyn drosglwyddo. Bydd ysgolion cynradd y dalgylch yn cwblhau'r daenlen drosglwyddo data er mwyn diwallu hyn.

#### **Ymweliadau:**

Nodwyd eisoes y gwahoddir cynrychiolydd o'r Ysgol Uwchradd (Cyd-lynydd ADY YDH) i adolygiad blynyddol unrhyw blentyn sydd yn destun datganiad/CDU Awdurdod o anghenion addysgol arbennig, yn ystod tymor cyntaf Blwyddyn 6.

### **Mae'n arfer dda i gynrychiolwyr yr Ysgol Uwchradd ymweld ag Ysgolion Cynradd y dalgylch dair gwaith i hyrwyddo'r broses drosglwyddo:**

1. gwahoddiad i Noson Agored a chyflwyno ei hun i'r disgyblion.
2. i sgwrsio ac ateb cwestiynau'r disgyblion (Pennaeth YDH a Phennaeth Blwyddyn 7 YDH ynghyd a cyn-ddisgyblion yr ysgol gynradd)
3. i siarad â'r Pennaeth a chasglu gwybodaeth bellach (Cyswilt Lles Cynradd/Uwchradd a Phennaeth Blwyddyn 7)

Ni ddylai cynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd ymweld ag Ysgolion Cynradd y tu allan i'r bartneriaeth cyn i rieni ddatgan eu dewis o ysgol.

Gwneir trefniadau hefyd i ddisgyblion ymweld â'r Ysgol Uwchradd am o leiaf tridiau cyn trosglwyddo. Yr Ysgol Uwchradd fydd yn gyfrifol am weithrediad y trefniadau hyn. Lle gwneir defnydd o gludiant sirol, gwneir hynny dan yr amodau sirol arferol.

- ◆ Yn ystod tymor yr Hydref cynhelir Noson Agored yn yr Ysgol Uwchradd i rieni a disgyblion blynnyddoedd 6 i ymgyfarwyddo â'r ysgol a'i staff.
- ◆ Ym mis Mehefin/Gorffennaf cynhelir Sesiynau Anwytho i holl ddisgyblion B16 – 3 diwrnod
- ◆ Cynhelir noson rieni bl.6 er mwyn rhannu gwybodaeth a chynnal sesiwn holi ar brynhawn olaf y tridiau anwytho

### **Natur yr Wybodaeth i'w Throsglwyddo**

Mae'r ysgolion yn y clwstwr yn ymrwmo i rannu gwybodaeth am ddisgyblion ar ben y gofynion statudol os yw hyn o fudd i les y disgyblion.

Bydd yr wybodaeth ffurfiol sydd i'w throsglwyddo ar gyfer pob plentyn yn cynnwys o leiaf:

- ◆ Gwybodaeth SIMS berthnasol o'r Swyddfa Addysg yn ganolog
- ◆ Gwaith y disgyblion yn ystod tymor yr haf cyn trosglwyddo
- ◆ Aseidiadau Athrawon ar y cyd – gan gynnwys y proffiliau/portffolio cymedroli.
- ◆ Gwybodaeth ychwanegol mewn rhai achosion e.e. anghenion addysgol arbennig (Cynllun Addysg Unigol, a chopi o'r Datganiad ADY/CDU Awdurdod neu Ysgol)
- ◆ Plentyn sy'n derbyn gofal (Cynllun Addysg Bersonol) / Anawsterau Ymddygiadol (Rhaglen Cymorth Fugeiliol) / Plant bregus

### ***Amserlen Trosglwyddo Gwybodaeth***

#### **Gwybodaeth SIMS:**

I'r Uwchradd erbyn cychwyn Mehefin

Trosglwyddir yr wybodaeth ffeithiol am ddisgybl ar ffurf yr wybodaeth a gofnodir trwy ddulliau'r sistem SIMS. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys: enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, rhif ffôn cartref os oes un, enwau'r rhai sydd â hawliau rhiant a'u cyfeiriadau, iaith y rhieni a hefyd iaith y cartref a hefyd unrhyw wybodaeth feddygol berthnasol.

## **Gwybodaeth Ychwanegol:**

Trefnir i'r Ysgol Uwchradd dderbyn gwybodaeth ychwanegol am rai unigolion yn ystod ymweliad Pennaeth Blwyddyn 7/Cyswilt Lles Cynradd/Uwchradd wrth ymweld â'r Cynradd yn ystod y trydydd tymor - y person hwn sydd yn cofnodi'r wybodaeth. Yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw anghenion - unrhyw rai allai brofi anhawster ar drosglwyddiad oherwydd ymddygiad cymdeithasol, gallai gwybodaeth o'r fath gynnwys gwybodaeth yn ychwanegol i'r hyn a nodir ar ffurflen SIMS, cyflwr meddygol, cyswilt ag asiantaethau eraill, enwau unigolion sy'n derbyn gwersi cerdd ychwanegol, enwau rhai sydd yn derbyn cinio am ddim, ac yn y blaen. Darperir taenlen drosglwyddo yn ychwanegol. Dylid trosglwyddo manylion lefel y pynciau craidd i bob disgybl (is-lefelau) ynghyd a chanlyniadau Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol ac oedran darllen y disgyblion.

## **Trosglwyddo Gwybodaeth o'r Ysgol Uwchradd i'r Ysgol Gynradd:**

Bydd yr Ysgol Uwchradd yn darparu gwybodaeth am asesiadau yn ystod Blwyddyn 7 ac yn gwahodd yr Ysgol Gynradd i gynnig sylwadau ar y cynnydd a wnaed yn y pynciau unigol. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am drac iaith y disgybl.

## **Amserlen Trosglwyddo Dogfennaeth:**

Trefnir i rieni dderbyn dogfennaeth trosglwyddo trwy'r Ysgolion Cynradd. Pennir dyddiadau yn flynyddol ar gyfer dychwelyd gwybodaeth i'r Adran Addysg trwy'r Ysgol Gynradd.

Bydd yr Adran Addysg yn hysbysu'r Ysgolion Uwchradd ac yn trosglwyddo'r ddogfennaeth erbyn dyddiad penodol. Dylai pawb gadw'n dynn at y dyddiadau hyn.

Rhoddir gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol ac am eu cyflawniadau a'u cyrhaeddiad yn ystod yr ymweliadau gan Bennaeth Blwyddyn 7 yr ysgol uwchradd a'r ysgolion Cynradd sy'n bwydo.

## **Anghenion Dysgu Ychwanegol:**

Cyn pennu dyddiad y cyfarfod adolygu datganiad ar blentyn Blwyddyn 6 mae'n hanfodol i bob ysgol gynnal trafodaeth i sicrhau cytundeb y rhieni ar ba ysgol uwchradd y bydd y plentyn yn trosglwyddo iddi fel y gellir gahodd cydlynnydd yr ysgol honno i'r cyfarfod adolygu.

Cyn y Nadolig bydd yr Ysgolion Cynradd wedi diweddarau'r wybodaeth ar gofrestr ADY'r ysgol, fel ac y mae'n berthnasol i ddisgyblion a fydd yn trosglwyddo ar ddiwedd y flwyddyn ysgol honno, a'i fod ar gael wedi ei ddiweddarau i'r Ysgol Uwchradd. Dylid gwahodd cynrychiolydd yr Ysgol Uwchradd (Cyd-lynnydd ADY YDH) i adolygiad blynyddol unrhyw ddisgybl a fydd yn trosglwyddo ar ddiwedd y flwyddyn.

Dylid cynnal yr adolygiad yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn ysgol. Trosglwyddir gwybodaeth am anghenion ADY disgyblion ar y ffurflen drosglwyddo asesiadau athrawon (CDU/ CAU / CAP / RhCB) - anfon i'r Uwchradd un wythnos glir cyn y Sulgwyn.



Dylid sicrhau y trosglwyddir dogfennaeth gyflawn am blant a chanddynt anghenion addysgol arbennig i'r Cyd-gysylltydd Cynradd / Uwchradd un wythnos glir cyn y Sulgwyn.

Dylai Cynllun Addysg Unigol ddiweddaraf plentyn ar gyfnod "cefnogaeth ysgol" neu uwch o gamau'r Rhestr Argymhellion gael ei drosglwyddo, ynghyd ag unrhyw gynlluniau blaenorol perthnasol sy'n dangos pa gamau a gymerwyd eisoes.

Dylid manteisio ar gyfleoedd i drafod achosion unrhyw unigolion nad ydynt ar gofrestr ADY'r Ysgol Gynradd ond a allai ei chael yn anodd ymdopi â sefyllfa Ysgol Uwchradd yn ystod ymweliad Y Cyswllt Lles Cynradd/Uwchradd a Phennaeth Blwyddyn 7 yr Uwchradd â'r Ysgolion Cynradd yn y trydydd tymor.

**Mae'r rhai isod yn cytuno â'r cynllun hwn ar ran Cyrff Llywodraethu ysgolion y bartneriaeth:**

Enw Cadeirydd \_\_\_\_\_  
Llofnod \_\_\_\_\_  
Dyddiad \_\_\_\_\_  
Ysgol \_\_\_\_\_

Enw Cadeirydd \_\_\_\_\_  
Llofnod \_\_\_\_\_  
Dyddiad \_\_\_\_\_  
Ysgol \_\_\_\_\_

Enw Cadeirydd \_\_\_\_\_  
Llofnod \_\_\_\_\_  
Dyddiad \_\_\_\_\_  
Ysgol \_\_\_\_\_

Enw Cadeirydd \_\_\_\_\_  
Llofnod \_\_\_\_\_  
Dyddiad \_\_\_\_\_  
Ysgol \_\_\_\_\_

Cadarnheir bod copi o'r cynllun wedi'i drosglwyddo i'r awdurdod addysg leol berthnasol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae copïau ar gael hefyd ar gais ym mhob un o ysgolion y bartneriaeth.

## **GWEITHGAREDDAU 2020-21**

1. Fforwm Penaethiaid Dalgylch – Cyfarfod unwaith y Tymor
  - Cytuno ar y Cynllun Trosglwyddo – rhaglen y flwyddyn
  - Fforymau eraill yn bwydo i'r Cynllun Trosglwyddo
  - Monitro ac arfarnu y Cynllun Trosglwyddo
  - Gosod cyfeiriad strategol ar lefel dalgylchol
  - DYDDIADAU: I'w pennu
  
2. Diwrnod HMS Dalgylchol
  - Cynnal yr HMS i bawb yn Ysgol David Hughes
  - Ffocws ar Agenda Donaldson a chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Newydd i Gymru
  - Dyddiad: Chwefror 12eg, 2021 (Bore ar y cyd)
  
3. Cynllun Mwy Abl a Dawnus (Mathemateg)
  - Adnabod disgyblion MAD mewn Mathemateg ym Mlynnyddoedd 5 a 6
  - Cynnal Dyddiau Mathemateg MAD yn YDH bob tymor a gosod gwaith ymestynol i barhau ag o rhwng y sesiynau.
  - Dyddiadau: I'w pennu
  
4. Tracio Cynnydd Blwyddyn 7 (a diwedd CA3) - adborth o'r Cynradd
  - Adroddiadau Tracio Cynnydd Blwyddyn 7 yn cael eu rhannu â'r ysgol gynradd (y cyntaf ar ôl 11eg o Dachwedd)
  
  - YDH yn derbyn adborth ynghylch unrhyw bryderon am berfformiad
  
5. Ymweliadau gan y Pennaeth (HEW) a Phennaeth Blwyddyn 7 (OEH) + cyn ddisgyblion i bob ysgol gynradd yn ystod Hydref/dechrau Tachwedd i siarad gyda Blwyddyn 5 a 6.
  - Rhoi blas o fywyd YDH – fideo o fywyd a gwaith yr ysgol
  - Cyn ddisgyblion yn sôn am y profiad pontio ac am YDH
  - Gwahodd Blwyddyn 6 i'r Noson Agored
  - Ateb cwestiynau am yr ysgol
  - Wedi eu cwblhau rhwng Hydref 12eg a 23ain.
  
6. Seremoni Wobrwyo Blwyddyn 7 – Gorffennaf 2021 (dyddiad ac amser i'w gadarnhau)
  - Penaethiaid Cynradd i gyd yn cael gwahoddiad i gyflwyno'r gwobrau; Blwyddyn 7 yn cael gwybod am hyn ddechrau'r flwyddyn ac efallai cael y neges gan y Penaethiaid Cynradd ar ddiwedd Blwyddyn 6.

7. Fforwm ADY Clwstwr (Dan arweiniad yr Eiriolwr Clwstwr AJW)
  - Cyd-gysylltwyr ADY yn cyfarfod unwaith bob tymor
  - YDH yn dod i adnabod disgyblion ADY a'u anghenion yn gynt
  - Rhannu arferion da/adnoddau
  - Cyfle i drafod pryderon
  - Adnabod anghenion hyfforddiant
  
8. Cyfarfodydd cymedroli – Dyddiadau I'w cadarnhau
  
9. Ymweliadau Lles (OEH/GLI/MAR)  
Ymweld yn gyson i gyd weithio ar faterion lles a dod i adnabod plant CA2.  
Dyddiadau i'w cadarnhau
  
10. Cynlluniau Cwricwlaidd Pontio : Ymateb I 'Dyfodol Llwyddiannus' – Cywaith  
Gwyddoniaeth a Thechnoleg – paratoi at CNIg
  
11. Cylchgrawn Pontio (MAD iaith)  
Disgyblion MAD iaith y dalgylch i fynychu gweithdai yn YDH. Paratoi deunyddiau i'w coladu mewn cylchgrawn. Disgyblion bl.7 i gefnogi a chyfrannu hefyd. Dyddiadau'r gweithdai i'w pennu.
  
12. O leiaf tri ddiwrnod trosglwyddo i Flwyddyn 6. Dyddiau penodol ystod y cyfnod 22 - 24 Mehefin, 2021 \*\*\*I'w cadarnhau  
+ Noson Rieni Blwyddyn 6: 6pm Nos Iau 24 Mehefin, 2021. Dyddiau/sesiynau ychwanegol i'w trefnu yn ystod y flwyddyn hefyd. \*\*\* I'w cadarnhau.